Adran Gwaith
a Phensiynau

# Asesiad Taliad Annibyniaeth Personol – Adolygiad Annibynnol

## Galwad am Dystiolaeth

Mehefin 2014

ISBN 978-1-78425-250-2

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Ynglŷn â'r alwad am dystiolaeth ........ 3

Sut i ymateb ........ 4

Fformatau hygyrch ........ 4

Ymholiadau ynglŷn â'r alwad hon am dystiolaeth ........ 4

Sut rydym yn gweithredu'r alwad am dystiolaeth ........ 5

Terminoleg ........ 5

Rhagair gan Paul Gray ........ 6

Cyd-destun ........ 7

Disodli Lwfans Byw i'r Anabl ........ 7

Cyflwyno Taliad Annibyniaeth Personol ........ 7

Y broses o wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol ........ 8

Cwestiynau ........ 9

Amdanoch chi ........ 9

Profiad yr hawlydd ........ 10

Ymgynghoriad wyneb yn wyneb ........ 10

Tystiolaeth bellach ........ 10

Meini prawf a phroses yr asesiad ........ 10

Ailystyriaeth ac Apeliadau ........ 11

Gwelliannau ........ 11

Bodlonrwydd yr hawlydd ........ 12

Gwybodaeth neu dystiolaeth bellach ........ 12

Atodiad A ........ 13

# Cyflwyniad

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi comisiynu Paul Gray CB i ymgymryd ag adolygiad annibynnol i weld sut y mae'r asesiad Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) yn gweithio, yn unol ag Adran 89 y Ddeddf Diwygio Lles 2012. Bydd yr alwad hon am dystiolaeth yn un o sawl dull a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth. Defnyddir tystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o gynnwys adroddiad terfynol annibynnol i'w gyflwyno ger bron y Senedd.

## Ynglŷn â'r alwad am dystiolaeth

### At bwy yr anelir yr alwad hon am dystiolaeth hon

Anelir yr alwad hon am dystiolaeth at sefydliadau ac unigolion sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol o ran sut y mae'r asesiad PIP yn gweithredu ar gyfer ceisiadau newydd ac ailasesiadau am Lwfans Byw i'r Anabl (DLA). Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a wneir o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau pawb, felly darparwch gymaint â gwybodaeth â phosibl am y cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen hon. Rydym yn gwybod bydd gan bobl a sefydliadau wahanol lefelau o brofiadau o ran prosesau PIP yn ystod y cam cynnar hwn. Felly, peidiwch â phryderu os na allwch ateb cwestiynau nad ydynt yn berthnasol i chi, er enghraifft, lle nad oes gennych brofiad personol.

Rydym wedi anfon yr alwad am dystiolaeth hon i nifer sylweddol o bobl a sefydliadau sydd eisoes wedi ymwneud â gwaith PIP mewn rhyw ffordd neu sydd wedi mynegi diddordeb. A fyddech cystal â rhannu'r ddogfen hon gyda, neu ddweud wrthym am, unrhyw un y credwch fydd am fod yn rhan o'r alwad hon am dystiolaeth.

### Pwrpas yr alwad am dystiolaeth

Defnyddir yr alwad hon am dystiolaeth i lywio casgliadau adolygwyr annibynnol. Bydd yr adolygydd annibynnol yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd ar ffurf adroddiad. Fel adolygiad annibynnol, nid yw'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu unrhyw un neu bob un o'r argymhellion, ac efallai y bydd unrhyw argymhellion yn destun asesiad pellach gan DWP.

### Cwmpas ar gyfer yr alwad am dystiolaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

## Cyfnod yr alwad am dystiolaeth

Bydd cyfnod yr alwad am dystiolaeth yn dechrau ar **23 Mehefin 2014** ac yn rhedeg tan **5 Medi 2014.**

## Sut i ymateb

Cwblhewch y ffurflen ar-lein.

Os na allwch ddefnyddio'r ffurflen ar-lein, defnyddiwch un o'r dulliau canlynol

**E-bost**: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk

**Post**: PIP Independent Review Team, Room 3S25, Zone South H, Quarry House, Quarry Hill, Leeds, LS2 7UA

Sicrhewch y bydd eich ymatebion yn ein cyrraedd erbyn **5 Medi 2014.**

Byddwn yn cydnabod eich ymateb.

## Fformatau hygyrch

Mae'r alwad am dystiolaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau. Mae dogfennau print bras, clywedol ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gael ar-lein. Yn ogystal, gellir darparu fersiynau Braille, print bras, casetiau sain, cryno ddisgiau a DVDau BSL mewn copi caled.

I gael y fformatau hyn, cysylltwch â:

**E-bost**: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk

**Post**: PIP Independent Review Team, Room 3S25, Zone South H, Quarry House, Quarry Hill, Leeds, LS2 7UA

## Ymholiadau ynglŷn â’r alwad hon am dystiolaeth

Anfonwch unrhyw ymholiadau am yr alwad hon am dystiolaeth i:

**Post**: PIP Independent Review Team, Room 3S25, Zone South H, Quarry House, Quarry Hill, Leeds, LS2 7UA

**Ffôn**: 0207 449 7536

**E-bost**: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk

# Sut rydym yn gweithredu'r alwad am dystiolaeth

## Rhyddid gwybodaeth

Efallai y bydd angen trosglwyddo'r  wybodaeth a anfonwch atom i gydweithwyr o fewn DWP, ei chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd a chyfeirir atynt yn yr adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd.

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r holl wybodaeth a gynhwysir yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, os gofynnir amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Drwy ddarparu gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus, deallir eich bod yn caniatáu i'r wybodaeth cael ei datgelu a'i chyhoeddi. Os nad dyma'r achos, dylech gyfyngu unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir neu ddileu'n llwyr. Os ydych am i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r alwad am dystiolaeth i fod yn gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, ond ni allwn warantu i wneud hyn.

I gael mwy o wybodaeth am yr egwyddorion cyffredinol am Ryddid Gwybodaeth a sut y caiff eu cymhwyso o fewn DWP, cysylltwch â:

Freedom of Information Team
Caxton House
6-12 Tothill Street
London
SW1H 9NA
Freedom-of-information-request@dwp.gsi.gov.uk

Ni all y Tîm Rhyddid Gwybodaeth Canolog cynghori ar yr alwad benodol hon am wybodaeth, dim ond ar faterion Rhyddid Gwybodaeth. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn www.dwp.gov.uk/freedom-of-information

# Terminoleg

Lle y defnyddiwn y gair "cyflwr" yn y ddogfen hon, rydym yn golygu anableddau, cyflyrau iechyd ac amhariadau. Defnyddiwn "cyflwr" yn gryno.

# Rhagair gan Paul Gray

Mae’r Gweinidog Gwladol dros Bobl Anabl wedi gofyn i mi ymgymryd â'r adolygiad annibynnol cyntaf o weithrediad yr asesiad PIP yn unol â'r amserlen a nodir yn y Ddeddf Diwygio Lles 2012.

Rwyf yn ymwybodol iawn bod y gofyniad deddfwriaethol hwn yn golygu y caiff yr adolygiad ei gynnal ar gam cymharol gynnar yn hanes PIP. Er bod hynny'n awgrymu yn anochel y bydd llawer o'r dystiolaeth am ei weithrediad ar gam rhagarweiniol, mae hefyd yn cynnig y cyfle i wneud sylwadau ac argymhellion ar gam ffurfiannol yn y broses o gyflwyno'r system. Am y rheswm hwnnw rwyf yn bwriadu defnyddio fy Nghylch Gorchwyl (Atodiad A) fel fframwaith i ganiatáu i mi gymryd golwg eang ar bob agwedd o’r broses PIP.

Nod datganedig DWP, yn eu datblygiad o’r asesiad PIP oedd, yn fwy cywir, yn wrthrychol ac yn gyson i asesu angen yr unigolyn am gymorth ychwanegol. Mae pobl anabl yn wynebu amgylchiadau gwahanol iawn, felly bwriedir i'r asesiad mesur effaith cyflwr iechyd rhywun neu nam ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau byw bob dydd neu symudedd, nid i ganolbwyntio ar y cyflwr iechyd neu nam ei hun. Bydd pa mor effeithiol mae’r nod heriol hynny yn cael ei fodloni, ac yn cael ei gweld yn cael ei fodloni, yn rhan ganolog o'r adolygiad hwn.

Ond rwyf hefyd yn bwriadu edrych ar bob cam arall yn y broses PIP. Er enghraifft, bydd sut mae pobl yn hawlio ac yn derbyn penderfyniadau'r un mor bwysig â sicrhau eu bod wedi cael eu trin yn deg ac yn effeithiol, ac mae angen gweld gweithrediad yr asesiad yn y cyd-destun ehangach.

Gall unrhyw adolygiad, wrth gwrs, dim ond fod cystal ag ansawdd y dystiolaeth y mae'n seiliedig arno. Wrth lansio'r cam cyntaf bwysig yr adolygiad, rwy’n gobeithio y bydd pawb sydd mewn sefyllfa i roi tystiolaeth berthnasol a chadarn i mi yn gwneud hynny. Byddaf yn defnyddio hyn i wneud argymhellion, lle y gwelaf fod eu hangen, ar ddatblygiad ac effeithiolrwydd PIP yn y dyfodol.

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.



Paul Gray CB

# Cyd-destun

## Disodli Lwfans Byw i’r Anabl

Pan gyflwynwyd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ym mis Ebrill 2013 gwnaeth ddilyn cyfnod lle nad oedd Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) wedi’i ddiwygio’n sylfaenol ers iddo gael ei gyflwyno dros 20 mlynedd yn ôl. Bwriad penodol y Llywodraeth oedd datblygu budd-dal newydd a oedd yn adlewyrchu dealltwriaeth fodern o anabledd ac yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer y dyfodol.

Mae PIP wedi'i gynllunio i gynnal egwyddorion allweddol DLA. Mae'n helpu tuag at rai o’r costau ychwanegol oherwydd cyflwr hirdymor. Mae'n seiliedig ar sut y mae cyflwr person yn effeithio arnynt, nid y cyflwr sydd ganddynt. Nid yw'n seiliedig ar brawf modd neu’n amodol ar dreth ac mae'n daladwy i bobl sydd i mewn ac allan o waith. Mae PIP yn cynnwys dwy elfen (rhannau) - i) elfen bywyd bob dydd a ii) symudedd. Mae gan bob elfen ddwy gyfradd; cyfradd safonol a chyfradd uwch. Os bydd gan hawlydd hawl i gael PIP, byddant yn cael un neu’r ddwy elfen. Mae’r elfennau y mae pobl yn eu cael yn dibynnu ar sut mae eu cyflwr yn effeithio arnynt.

## Cyflwyno Taliad Annibyniaeth Personol

Dechreuodd PIP ddisodli DLA ar gyfer pobl cymwys rhwng 16 a 64 oed, o 8 Ebrill 2013. Yn y cychwyn dechreuodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gymryd ceisiadau newydd ar gyfer PIP mewn rhannau o Ogledd Lloegr. Ymestynnwyd hwn i gynnwys Prydain Fawr o 10 Mehefin 2013.

O 28 Hydref 2013 dechreuodd DWP wahodd rhai hawlwyr DLA presennol i hawlio PIP o bob rhan o Gymru, Canolbarth Lloegr, a Dwyrain Anglia lle:

- hysbyswyd newid mewn amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar gyfradd y taliad (nid yw hyn yn cynnwys penderfyniadau talu o ganlyniad i fynd i gartref gofal, ysbyty neu garchar);
- roedd dyfarniad cyfnod penodol ar fin dod i ben ar neu ar ôl 17 Mawrth 2014;
- roedd plentyn newydd droi’n 16 oed ar neu ar ôl 7 Hydref 2013 (oni bai y dyfarnwyd DLA o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol); a
- dewisodd unigolyn hawlio PIP yn hytrach na DLA.

Mae'r broses hon o "ailasesu naturiol" yn parhau gyda dau gam pellach ar gyfer codau post yn dechrau gyda DG (Dumfries a Galloway), EH (Caeredin), TD (Galashiels) a ML (Motherwell) o 13 Ionawr 2014 ac o 3 Chwefror ar gyfer codau post yn dechrau gyda CA (Caerliwelydd), DL (Darlington), HG (Harrogate), LA (Lancaster)

a YO (Efrog).

Bydd DWP yn parhau i fonitro’r prosesau ceisiadau newydd ac ailasesu cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar ehangu cyflwyno ailasesiad naturiol.

## Y broses o wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol

Mae gwybodaeth am PIP, a sut i hawlio, ar gael ar-lein yn GOV.UK (https://www.gov.uk/pip) ac o fewn y daflen PIP sydd ar gael o Linell Taflenni DWP (Ffôn: 0845 7 31 32 33). Mae DWP hefyd yn anfon gwybodaeth am PIP yn uniongyrchol at hawlwyr DLA gyda’u llythyr uwchraddio blynyddol DLA.

Cynhwysir gwybodaeth gyffredinol am PIP ar gyfer sefydliadau cymorth ac ymgynghorwyr mewn Pecyn Cymorth PIP (https://www.gov.uk/government/publications/the-personal-independence-payment-toolkit-for-partners/the-personal-independence-payment-pip-toolkit-for-partners). Mae hyn yn cynnwys taflenni ffeithiau, llythyrau enghreifftiol PIP a thestun awgrymedig i'w defnyddio mewn canllawiau cyfathrebu sefydliadau eu hunain.

Mae hawlwyr yn ffonio DWP i wneud cais newydd ar gyfer PIP. Gall rhywun arall alw ar ran yr hawlydd, ond mae angen i'r hawlydd fod gyda nhw pan fyddant yn ffonio. Gall hawlwyr hefyd ysgrifennu i ofyn am ffurflen. Pan wnaed cais ar gyfer PIP, bydd DWP yn anfon ffurflen a elwir 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch’ i'r hawlydd ac eithrio yn yr achosion hynny lle y gwnaed cais o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer salwch terfynol.

Caiff y rhan fwyaf o hawlwyr PIP eu hasesu gan weithiwr iechyd proffesiynol annibynnol. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan *Atos Healthcare* a *Capita Health and Wellbeing* (a elwir yn ddarparwyr asesu) yn ystyried unrhyw dystiolaeth y mae’r hawlydd wedi’u darparu a hefyd p'un a fydd tystiolaeth bellach yn eu helpu wrth ddarparu cyngor i DWP.

Mae'r asesiad PIP yn edrych ar allu unigolyn i gynnal cyfres o weithgareddau allweddol bob dydd, gan gynnwys eu gallu i baratoi bwyd, bwyta, gwisgo a dadwisgo, ymolchi a chael bath, gwneud penderfyniadau ariannol, rheoli a monitro eu cyflwr iechyd, cyfathrebu, ymgysylltu â phobl eraill, cynllunio a dilyn teithiau, a symud o gwmpas.

Mae DWP yn gwneud y penderfyniad ynglŷn â’r hawl i gael PIP yn seiliedig ar gyngor y darparwr asesu, holiadur yr hawlydd ac unrhyw dystiolaeth ategol sydd ar gael. Mae DWP yn anfon llythyr i’r hawlydd unwaith y gwneir penderfyniad, gan esbonio'r penderfyniad a pham y cafodd ei wneud. Os yw'r penderfyniad i beidio â dyfarnu PIP, bydd swyddog penderfyniadau DWP yn ceisio cysylltu â'r hawlydd i esbonio pam. Mae hyn hefyd yn digwydd mewn achosion ailasesu DLA lle na chaniateir y cais neu y mae'r dyfarniad yn llai na'r un DLA.

Os bydd yr hawlydd yn dymuno herio’r penderfyniad ar yr hawl i gael PIP, gallant ofyn am ailystyried y penderfyniad gwreiddiol. Mae ailystyriaeth yn gam gorfodol o flaen gwneud apêl. Mae’r cam hwn yn rhoi cyfle pellach i hawlwyr gyflwyno unrhyw

dystiolaeth ychwanegol a allai helpu'r swyddog penderfyniadau adolygu penderfyniad os yw'n briodol. Ar ôl hyn, os yw'r hawlydd dal yn credu bod y penderfyniad yn anghywir, gallant apelio i dribiwnlys annibynnol.

Information about PIP, and how to claim, is available online at GOV.UK (https://www.gov.uk/pip) and within a PIP leaflet available from the DWP Leaflet Line (Telephone: 0845 7 31 32 33). DWP also send information about PIP directly to DLA claimants with their annual DLA uprating letter.

# Cwestiynau

## Amdanoch chi

**Cwestiwn 1a: Ydych chi'n ymateb fel:**

a. **Unigolyn?**
b. **Sefydliad? – os felly, dywedwch wrthym ba sefydliad a phwy y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli? Lle y bo'n berthnasol, esboniwch sut y casglwyd barn yr aelodau.**

**Cwestiwn 1b: Ydych chi'n:**

- **Rhywun sydd wedi hawlio PIP ar eich cyfer eich hun?**
- **Rhywun sydd â chyflwr sydd heb hawlio PIP?**
- **Ffrind, gofalwr neu aelod o deulu sy'n gweithredu ar ran rhywun sy'n hawlio PIP?**
- **Aelod o sefydliad sydd wedi cefnogi'n uniongyrchol rhywun sy'n hawlio PIP?**
- **Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol?**
- **Aelod o staff *Atos* neu *Capita*?**
- **Staff DWP?**
- **Arall? Rhowch fanylion**
- **Gwell peidio â dweud**

**Cwestiwn 1c: Rhowch y manylion canlynol rhag ofn y byddwn angen trafod rhagor o wybodaeth arnom gyda chi:**

- **Enw**

  **Cyfeiriad**

  **E-bost**

  **Rhif Ffôn**

- **Gwell peidio â dweud**

## Profiad yr hawlydd

**Cwestiwn 2: Ystyriwch y broses PIP. Mae hyn yn cynnwys gwneud cais, y meini prawf bywyd pob dydd a symudedd a defnyddiwyd yn y broses PIP a chael penderfyniad. Esboniwch:**
**a) Pa mor hawdd yw hi i bobl ddeall y broses gyfan?**

**b) Pa mor hawdd yw hi i bobl wneud cais?**

## Ymgynghoriad wyneb yn wyneb

Mae *Atos Healthcare* a *Capita Health and Wellbeing* yn cynnal ymgynghoriad wyneb yn wyneb ar gyfer DWP, naill ai mewn canolfan ymgynghori neu glinig neu gartref yr hawlydd.

**Cwestiwn 3: Dywedwch wrthym am y profiad o gael ymgynghori wyneb yn wyneb gyda gweithiwr iechyd proffesiynol *Atos* neu *Capita*.**

## Tystiolaeth bellach

Yn allweddol i'r cywirdeb ac ansawdd yr asesiad yw cael y dystiolaeth orau, fwyaf perthnasol (sef tystiolaeth bellach) o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Meddygon Teulu, ysbytai, gweithwyr cymdeithasol, aelodau'r teulu, gofalwyr a gwybodaeth DLA presennol. Gall hawlwyr anfon tystiolaeth ategol gyda'u ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' ffurfio, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. Mae'n rhan o rôl gweithiwr iechyd proffesiynol *Atos* neu *Capita* ystyried pa dystiolaeth bellach y bydd yn eu helpu i ddarparu cyngor ar y cais i DWP. Maent yn gyfrifol am ofyn amdani gan y bobl a restrir ar ffurflen yr hawlydd lle y teimlant ei fod yn angenrheidiol.

**Cwestiwn 4: Ystyriwch sut y defnyddir tystiolaeth bellach yn y broses PIP. Rhowch y wybodaeth ganlynol am dystiolaeth bellach:**

**a) A gofynnwyd amdano'n briodol gan *Atos* neu *Capita*?**
**b) A ddarperir ar amser?**
**c) A ddefnyddiwyd yn briodol ac yn deg i hysbysu penderfyniadau?**

## Meini prawf a phroses yr asesiad

Mae'r asesiad PIP yn ystyried effaith y cyflwr corfforol, meddyliol, gwybyddol, synhwyraidd neu ddysgu unigolyn ar eu bywyd bob dydd, gan gymryd i ystyriaeth amodau lluosol neu amrywiol. Bwriedir i fesur effaith cyflwr y person ar eu gallu i gymryd rhan, yn hytrach na'r cyflwr ei hun. Gwna hyn drwy edrych ar nifer o weithgareddau byw bob dydd a symudedd allweddol.

Mae rhan fwyaf o asesiadau yn cael eu cynnal fel ymgynghoriad wyneb yn wyneb mewn clinig neu gartref yr hawlydd. Lle y ceir eisoes digon o dystiolaeth, a anfonwyd gan yr hawlydd neu ei chasglu o ffynonellau eraill, gellir cwblhau rhai asesiadau ar sail papur. Nid yw'n ofynnol i bobl sy'n hawlio o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer salwch terfynol fynychu asesiad wyneb yn wyneb.

**Cwestiwn 5: Ble y bydd gennych dystiolaeth o unrhyw un o'r canlynol, disgrifiwch pa mor effeithiol yw'r asesiad PIP:**

**a. Ar gyfer pobl sydd ag un cyflwr?**

**b. Ar gyfer pobl sydd â mwy nag un cyflwr?**

**c. Ar gyfer pobl sydd â chyflyrau sy'n newid (cyflyrau cyfnewidiol)?**

**ch. Ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol?**

**d. Wrth nodi p'un a yw rhywun yn gymwys ar gyfer y gyfradd safonol neu'r gyfradd uwch?**

**e. Wrth nodi'r bobl sy'n gymwys ar gyfer elfen symudedd PIP o ganlyniad i'r anghenion sy'n deillio o'u cyflwr?**

## Ailystyriaeth ac Apeliadau

Os yw pobl yn anfodlon â'r penderfyniad a wnaed ar eu cais PIP, gallant ofyn i DWP edrych arno eto. Y cam cyntaf yn y broses hon yw ailystyriaeth. Os yw pobl yn anfodlon o hyd ar ôl i hyn ddigwydd, gallant apelio drwy Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

**Cwestiwn 6: Yn eich profiad chi, beth yw'r rhesymau dros bobl yn gofyn i DWP i edrych eto ar eu penderfyniad PIP?**

**Cwestiwn 7: Yn eich profiad chi, beth yw'r rhesymau dros bobl yn gwneud apêl i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS)?**

## Gwelliannau

Mae DWP wedi cydnabod ar hyn o bryd bod proses cyffredinol PIP yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl ac wedi dweud ei fod wedi ymrwymo i wneud gwelliannau fel mater o flaenoriaeth.

**Cwestiwn 8: Beth fu eich profiad o'r amser y cymerwyd o wneud cais hyd nes cael penderfyniad?**

**Cwestiwn 9: Beth fu'r effeithiau hyn?**

Mae DWP yn cyflwyno PIP fesul cam, yn dysgu o brofiad ceisiadau newydd a sut y mae ailasesiadau naturiol yn gweithio mewn ardaloedd daearyddol cyfyngedig cyn ei gyflwyno'n bellach.

**Cwestiwn 10: Ystyriwch yr holl broses PIP. Mae hyn yn cynnwys gwneud cais, mynd i ymgynghoriad wyneb yn wyneb, y meini prawf bywyd bob dydd a**

**symudedd a ddefnyddir yn yr asesiad PIP a chael penderfyniad.  Pa welliannau y gellir eu gwneud? Esboniwch sut y gall y gwelliannau hyn helpu.**

## Bodlonrwydd yr hawlydd

**Cwestiwn 11: Yn eich profiad chi, pa mor fodlon ydych chi gyda'r broses yn gyffredinol? Dywedwch wrthym pam rydych yn teimlo fel hyn.**

**Cwestiwn 12: Ystyriwch y penderfyniadau a wnaed ar geisiadau PIP. Pa mor fodlon ydych chi fod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn briodol ac yn deg? Dywedwch wrthym pam rydych yn teimlo fel hyn.**

## Gwybodaeth neu dystiolaeth bellach

**Cwestiwn 13: Rhowch unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth bellach y credwch y gallai helpu i lywio'r adolygiad.**

# Atodiad A

**Adolygiad annibynnol yr asesiad Taliad Annibyniaeth Personol – Cylch Gorchwyl**

I ddarparu adroddiad annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau sy’n gwerthuso:

- gweithredu’r asesiad Taliad Annibyniaeth Personol
- profiad hawlwyr PIP o gymryd rhan yn yr asesiad
- canfyddiadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a staff eraill sy’n cynnal yr asesiad
- effeithiolrwydd yr asesiad PIP wrth nodi’n gywir yr hawlwyr hynny sy’n gymwys ar gyfer PIP ar hyn o bryd ar y gyfradd uwch neu’r gyfradd safonol o ganlyniad i anghenion sy'n deillio o'u cyflwr; ac
- effeithiolrwydd yr asesiad PIP wrth nodi’n gywir yr hawlwyr sydd ag anghenion sy'n deillio o'u cyflwr eu bod yn gymwys ar gyfer elfen symudedd PIP.